# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 14 Chwefror 2019 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 14 Chwefror 2019 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 21 Chwefror 2019 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet dros Addysg

**PWNC:**

Rhybudd Statudol ar gynnig i gau Ysgol Cwm y Glo

**PENDERFYNIAD –**

Cymeradwyo cychwyn proses i gau Ysgol Cwm y Glo ar 31 Awst 2019
Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cyhoeddi rhybudd statudol yn datgan bydd yr Ysgol yn cau ar 31 Awst 2019, gan ganiatáu cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn unol a'r Ddeddf.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Aelodau Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Gareth Thomas |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Diane Jones<br>Swyddog Addysg |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 14 Chwefror 2019 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :**

Rhybudd Statudol ar gynnig i gau Ysgol Cwm y Glo.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Yn seiliedig ar y ffaith nad oedd unrhyw ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Cwm y Glo ar gyfrifiad disgyblion cofrestredig ym Mis Ionawr 2019, yn union cyn y dyddiad y gwneir y cynigion (yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) argymhellir:

- Cymeradwyo cychwyn proses i gau Ysgol Cwm y Glo ar 31 Awst 2019
- Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cyhoeddi rhybudd statudol yn datgan bydd yr Ysgol yn cau ar 31 Awst 2019, gan ganiatáu cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn unol a'r Ddeddf.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn Ionawr 2019, nid oedd unrhyw ddisgybl ar gofrestr yr Ysgol.
Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi:


'*os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu / awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol.*

*Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor'*.

Gan ystyried yr angen hwn, a’r ffaith nad oedd unrhyw ddisgybl ar gofrestr Ysgol Cwm y Glo ar ddiwrnod cyfrifiad Ionawr 2019, argymhellir rhyddhau Rhybudd Statudol ar y cynnig i gau Ysgol Cwm y Glo ar 31ain Awst 2019. Bydd y Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**
Dros y blynyddoedd diwethaf mae cwymp sylweddol wedi bod yn niferoedd disgyblion Ysgol Cwm y Glo. Gyda chapasiti o 72 o lefydd, roedd niferoedd yr ysgol dros gapasiti am gyfnod cyn 2009. Ers 2009, mae niferoedd wedi cwympo yn flynyddol, ac erbyn mis Medi 2018 dim ond 6 disgybl oedd ar y gofrestr. Erbyn 18 Medi 2018 roedd y 6 disgybl yma wedi symud i ysgolion eraill.

Cynhaliwyd sgyrsiau cyson rhwng swyddogion y Cyngor a phennaeth yr ysgol er mwyn trafod pryderon ynglŷn â’r posibilrwydd y byddai niferoedd isel ar gofrestr yr ysgol ym mis Medi 2018. Cafwyd cyfarfodydd hefyd gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethol a chyfarfod o’r Corff llawn ble trafodwyd yr opsiynau posibl a sefyllfa’r ysgol nawr ac i’r dyfodol. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw cafodd y llywodraethwyr gyfarfod gyda’r rhieni er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o sefyllfa’r ysgol. Roedd parodrwydd y corff a’r pennaeth i ymateb yn rhagweithiol i’r sefyllfa wedi golygu fod trefniadau trosglwyddo’r plant i ysgolion eraill wedi digwydd gan amharu cyn lleied â phosibl ar addysg y plant.




Mae’r tabl isod yn dangos fod gan ysgolion cyfagos digon o gapasiti i dderbyn plant dalgylch Ysgol Cwm y Glo heb yr angen i gynyddu unrhyw gapasiti.

| **Ysgol** | **Nifer ar y gofrestr** Medi 2018 (M – Bl6) | **Capasiti Llawn** (M – Bl6) | **Nifer o Lefydd Gwag** 2018 (M – Bl6) | **% o Lefydd Gwag** 2018 (M – Bl6) |
|---|---|---|---|---|
| **Cwm y Glo** | 0 | 72 | 72 | 100% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llanrug** | 266 | 352 | 86 | 24% |
| **Penisarwaen** | 62 | 73 | 11 | 8% |

Yn 2018, gyda 16 disgybl ar y gofrestr, roedd cost y pen dros ddwbl cyfartaledd y Sir, a'r cyfraniad gwarchodaeth yn fwy na £58,000.

| Ysgol Cwm y Glo | Cost y Pen | Gwarchodaeth | Cyfartaledd Cost y Pen y Sir |
|---|---|---|---|
| **2014/15** | £4,077 | £0 | £3,856 |
| **2015/16** | £4,698 | £11,274 | £3,857 |
| **2016/17** | £4,658 | £17,388 | £3,811 |
| **2017/18** | £6,266 | £39,741 | £3,777 |
| **2018/19*** | £9,858 | £58,491 | £3,823 |

* *dyraniad cyllidol 1af Ebrill 2018, yn seiliedig ar niferoedd ar y gofrestr yn Ionawr 2018, sef 16 o ddisgyblion.*

Er bod proses i gau ysgol gyda llai na 10 o ddisgyblion yn hepgor y gofyn i ymgynghori'n gyffredinol, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi fod rhaid ystyried materion perthnasol sydd wedi eu cynnwys yn y Cod:

**a)** A ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu resymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn

Gan nad oes disgyblion o gwbl ar gofrestr yr ysgol ni fyddai'r opsiwn yma yn ymarferol.

**b)** A ellid ystyried posibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn amgen yn lle cau'r ysgol

Eto, gan nad oes disgyblion o gwbl ar gofrestr yr ysgol, ni fyddai'r opsiwn yma yn ymarferol.

**c)** A ellid archwilio'r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol

Yn bresennol, achlysurol yw defnydd cymunedol o'r ysgol. Yn unol â pholisi ôl-ddefnydd adeiladau'r Cyngor, fe fydd cyfle i grwpiau cymunedol gymryd meddiant o'r adeilad petai'r argymhelliad i gau'r ysgol yn cael ei gymeradwyo yn ddibynnol ar gyflwyno achos fusnes llwyddiannus.

**d)** Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol)

Ar hyn o bryd, defnydd achlysurol gan y gymuned sydd o'r ysgol ac ni ragdybir effaith sylweddol ar y gymuned. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar wahân i'r adroddiad yma wedi ei gynnal (Atodiad 1).
Er nad oes adnodd cymunedol arall o'r fath yng Nghwm y Glo, mae nifer o opsiynau eraill mewn pentrefi cyfagos (Llanberis, Llanrug, Penisa'r-waun neu Brynrefail).

**e)** Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig

Gan nad oes disgyblion ar gofrestr yr ysgol, nid yw'r ffactor yma yn berthnasol bellach. Mae'r Adran Addysg wedi bod yn darparu cymorth i'r ysgol a rhieni gyda cheisiadau trosglwyddo plant i ysgolion cyfagos ers mis Medi.

**Ystyriaethau perthnasol**

**Cydraddoldeb** - Mae Asesiad Cydraddoldeb (asesiad byr – 'A oes angen asesiad Effaith Cydraddoldeb') wedi ei gynnal gyda mewnbwn gan y Swyddog Cydraddoldeb (Atodiad 2).
Canlyniad yr asesiad oedd nad oedd y newid a gynigir (sef cau Ysgol Cwm y Glo) yn cael effaith, positif neu negyddol, ar nodwedd warchodedig benodol gan nad oes disgyblion yn yr Ysgol. Felly, nid oes angen cynnal yr asesiad llawn.

**Iaith** - Parthed unrhyw effaith ieithyddol posibl, gan ystyried nad oes plant yn mynychu Ysgol Cwm y Glo bellach, ni ystyrir fod unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg os bydd penderfyniad i weithredu ar y cynnig hwn. Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Yn ogystal, ein disgwyliad yw bod ysgolion Cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg eu disgyblion. Ar y sail yma, mae'r plant sydd eisoes wedi gadael yr ysgol wedi trosglwyddo i ysgolion eraill sydd hefo'r un statws ieithyddol ac sy'n dilyn yr un polisi ieithyddol sirol.

**Dalgylch** - Bydd ystyriaeth yn cael ei wneud o ba ddalgylch y bydd unrhyw blant dalgylch Cwm y Glo yn perthyn iddo pe byddai'r ysgol yn cau. Bydd proses yn cymryd lle gan ymgynghori gyda'r ysgolion cyfagos cyn cadarnhau hyn.

**Cludiant** - gan nad oes plant ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd nid oes angen gwneud trefniadau cludiant di-dâl yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

**Amserlen**

Os bydd penderfyniad i barhau gyda'r cynnig, bydd Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi ar 22 Chwefror 2019 a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig yn y cyfnod hwn.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd. Bydd yr adroddiad hwnnw yn nodi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ac fe fydd yr Aelod Cabinet wedyn yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch dyfodol Ysgol Cwm y Glo.

Er mwyn gweithredu'r argymhellion, bwriedir dilyn yr amserlen arfaethedig isod:

| **Camau nesaf:** |
|---|
| Cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu (28 diwrnod) |
| Aelod Cabinet Addysg i ystyried adroddiad ar unrhyw wrthwynebiadau |
| Aelod Cabinet yn cyhoeddi taflen benderfyniad |
| Penderfyniad yn weithredol |
| Ysgol Cwm y Glo yn cau yn ffurfiol (yn ddibynnol ar benderfyniad Aelod Cabinet Addysg) |

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – Mae’r daflen / adroddiad yn hunan-eglurhaol ac rwy’n cefnogi’r argymhelliad.

Swyddog Monitro – Mae’r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Aelod/au Lleol - Y prif reswm am y gostyngiad yn niferoedd disgyblion Ysgol Cwm y Glo yw'r newid demograffig yn nalgylch yr ysgol sydd wedi arwain i newidiadau sylweddol yn y gymuned. Mae prinder tai i deuluoedd yn y pentref, gyda nifer o dai yn cael eu rhentu; i ymwelwyr tymor byr ac hirach, sy'n golygu nad oes sefydlogrwydd o fewn y gymuned. Yn ogystal, gan bod rhieni yn gallu gwneud cais i gofrestru eu plant mewn ysgolion tu hwnt i'w dalgylch, mae nifer yn dilyn eu ffrindiau ac yn cludo eu plant i ysgolion eraill.

Rhaglen Moderneiddio Addysg

Adran Addysg

# Adroddiad Asesiad Effaith ar y Gymuned

## Ysgol Cwm y Glo

## Chwefror 2019

## Asesiad Ardrawiad Cymunedol

Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, mae angen gwneud asesiad effaith cymunedol yn unol a Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig. Mae'r Cod yn nodi:

*"Mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol."*

*"Dylai'r achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a dangos sut gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd."*

Mae'r tabl isod yn dangos defnydd tu hwnt i ddefnydd addysg dydd i ddydd yn yr ysgol:

| **Disgyblion yr ysgol** | **Cymuned ehangach** |
|---|---|
| Nid oes disgyblion yn yr Ysgol | Pwyllgor y Neuadd |
| | Gorsaf bleidleisio |
| | Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanrug a Cwm y Glo |

Yn unol a pholisi ôl-ddefnydd adeiladau'r Sir, bydd modd gwaredu a'r adeilad am lai na gwerth gystadleuol i sawl a fyddai'n ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol i'r ardal.

Pe byddai hyn yn digwydd yn Ysgol Cwm y Glo, yna bydd modd dod i delerau i barhau gyda'r defnydd presennol o'r neuadd gan y gymuned ehangach yn y broses yma.

Mae Menter Gymunedol eisoes wedi datgan eu ddiddordeb i feddiannu'r Ysgol yn ffurfiol. Yn unol a pholisi'r Cyngor, bydd angen i unrhyw grŵp neu fenter gymunedol gyflwyno achos busnes cadarn cyn i'r Cyngor benderfynu os yw eu cynnig yn un hyfyw, a bod y buddiannau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yn disodli y golled ariannol i'r Cyngor (y gwahaniaeth rhwng pris y farchnad a phris a gynhigir o dan yr ystyriaeth penodol).

Pe na fyddai unrhyw gynigion yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r broses, yna bydd modd trosglwyddo gweithgareddau i ganolfannau eraill cyfagos yn Llanrug a Penisarwaun.

# Oes angen gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb?

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

Bwriad y ffurflen yma yw eich helpu i benderfynu os oes angen gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb wrth wneud y newidiadau hynny. Os ydych chi'n barod yn credu fod y newid rydych chi'n ystyried yn cael effaith, positif neu negyddol, ar nodwedd warchodedig benodol, nid oes angen cwblhau'r ffurflen hon ond mynd yn syth i wneud asesiad llawn Am gymorth pellach, cysylltwch â Delyth G Williams, DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, est. 32708.

## 1) TEITL Y POLISI / CYNLLUN / ARFER AC ESBONIAD BYR O'I BWRPAS NEU'R NEWID DAN SYLW

| |
|---|
| Cynnig i gau Ysgol Cwm y Glo |

## 2) PERTHNASEDD AC EFFAITH

Wrth ateb a) a b) isod mae'n bwysig eich bod yn meddwl am yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr a'r gymuned ehangach.

### a. Nodweddion Gwarchodedig

*O'r dystiolaeth sydd gennych chi, ydi hi'n debygol y bydd y polisi / cynllun / arfer yn cael effaith ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig yma?*

| **Nodwedd** | **Effaith posib*** | **Pam?** *Nodwch eich tystiolaeth yma* |
|---|---|---|
| Hil | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Rhyw | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Anabledd | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Yr iaith Gymraeg | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Cyfeiriadedd | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, |

| | | |
|---|---|---|
| Rhywiol | | felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Ailbennu rhywedd | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Crefydd neu gred | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Oedran | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Dim | Ddim yn berthnasol |
| Priodas neu Bartneriaeth Sifil | Dim | Ddim yn berthnasol |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**b. Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb**

*Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. O'r dystiolaeth sydd gennych chi, ydi hi'n debygol y bydd y polisi / cynllun / arfer yn cael effaith ar unrhyw un o'r dyletswyddau yma? Cofiwch ystyried oes yna siawns pellach i leihau camwahaniaethu, gwella cyfleoedd cyfartal neu feithrin perthnasau da.*

| **Dyletswydd Gyffredinol** | **Effaith*** | **Pam?**<br>*Nodwch eich tystiolaeth yma* |
|---|---|---|
| Cael gwared a chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |
| Meithrin perthnasau da rhwng pobl hefo nodwedd warchodedig a'r rhai sydd heb. | Dim | Ers y 18fed o Fedi 2018, nid oes disgyblion yn yr Ysgol, felly ni fydd y cais yn effeithio unrhyw blentyn oed ysgol gynradd yn bresennol. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

## 3) OES ANGEN ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LLAWN?

*Os ydych chi wedi nodi positif neu negyddol i unrhyw un o'r uchod bydd angen gwneud asesiad llawn*

| | |
|---|---|
| **Oes** | |
| **Nag oes** | **x** |